Etholiad Senedd y DU

Nodiadau canllawiau ar y broses ymchwilio i wasanaethau a roddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a gawsant eu perfformio'n annigonol o bosibl a gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol p'un a ddylid gostwng neu ddal yn ôl ffi'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

Cyhoeddwyd Ebrill 2015

Diweddarwyd mis Mai 2017

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid	Rhif paragraff
Mai 2017	Diweddarwyd i dynnu'r cyfeiriadau at offerynnau statudol penodol ac i ddangos newid rolau o fewn y Comisiwn Etholiadol	1.4, 1.5 a theitlau rolau trwy gydol y ddogfen

Pwrpas

1. Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch, mae'r Comisiwn wedi datblygu'r nodyn hwn er mwyn amlinellu'r broses yr ydym yn bwriadu ei dilyn pan fyddwn yn dod yn ymwybodol o wasanaeth a roddwyd gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a berfformiwyd yn annigonol o bosibl. Mae hefyd yn sefydlu proses ar gyfer gwneud unrhyw argymhelliad dilynol o ran y ffioedd a ddylai fod yn ddyledus i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

2. Tra'n cydnabod bod rhaid i bob achos gael ei drin ar sail ei ffeithiau ac amgylchiadau unigol, mae'r papur hwn yn anelu at ddarparu arwydd o ba ffactorau a phrosesau y byddai'r Comisiwn yn disgwyl iddynt gael eu cymryd i ystyriaeth a'u dilyn wrth benderfynu a yw'r gwasanaeth wedi'i berfformio annigonol, ac wrth ffurfio argymhelliad ynghylch a ddylai'r ffi gael ei dal yn ôl neu ei gostwng ac, os felly, o faint.

Crynodeb o'r cefndir

3. Mae hawl gyfreithiol gan Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i adennill eu costau mewn perthynas â gwasanaethau a roddwyd, neu dreuliau yr eir iddynt, ar gyfer etholiad Senedd y DU, neu mewn cysylltiad ag etholiad Senedd y DU, os:

   - oedd y gwasanaethau wedi eu rhoi o reidrwydd, neu'r treuliau yr aethpwyd iddynt yn angenrheidiol, er mwyn cynnal yr etholiad yn effeithlon ac effeithiol; a
   - bod cyfanswm eu taliadau'n fwy na'r swm uchaf adferadwy cyffredinol a bennwyd mewn gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu a benderfynwyd yn unol â gorchymyn o'r fath.

4. Gall y gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol bennu, neu wneud darpariaeth ar gyfer penderfynu yn unol â'r gorchymyn, uchafswm y gellir ei adennill ar gyfer gwasanaethau neu dreuliau o unrhyw ddisgrifiad penodedig ac, yn gyffredinol, ni chaiff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) adennill mwy na'r swm hwnnw mewn perthynas ag unrhyw wasanaethau neu dreuliau o'r fath.[1]

5. Mae'r Gorchymyn yn pennu'r swm uchaf adferadwy cyffredinol i bob etholaeth seneddol, sy'n cynnwys dwy elfen:

   - Yr uchafswm y gellir ei **adennill** gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â gwasanaethau penodol a roddwyd (ar yr amod fod y gwasanaethau hynny'n cael eu rhoi o reidrwydd am gynnal yr etholiad yn effeithlon ac effeithiol). Mae'r Gorchymyn yn rhestru'r gwasanaethau a bennir fel:
     - Cynnal y bleidlais;

[1] Adran 29 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd) (RPA 1983).

- Cyflawni dyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn yr etholiad; a
- Gwneud trefniadau ar gyfer yr etholiad

Yn ogystal, mae'n ddyletswydd gyffredinol ar Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) mewn etholiad seneddol i wneud pob gweithred a phethau a all fod yn angenrheidiol er mwyn cynnal yr etholiad yn y modd a ddarperir gan y rheolau etholiad seneddol.[2]

- Yr uchafswm y gellir ei adennill gan Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â threuliau penodol yr aethpwyd iddynt mewn cysylltiad â'r etholiad (ar yr amod fod y treuliau hynny a gafwyd yn angenrheidiol er mwyn cynnal yr etholiad yn effeithlon ac effeithiol).

6. Cyfeirir at yr elfen gyntaf fel arfer fel 'ffi bersonol' y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a dyma yw testun y canllawiau hyn.

7. Yn 2013, diwygiwyd y ddeddfwriaeth i gyflwyno darpariaeth newydd sy'n berthnasol i wasanaeth a roddir gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer neu mewn cysylltiad ag etholiad seneddol sydd ym marn y Comisiwn wedi ei berfformio'n annigonol.[3]

8. Yn yr amgylchiadau hyn **gall** y Comisiwn argymell i'r Ysgrifennydd Gwladol nad oes gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hawl i ddim mwy na swm penodol (a all fod yn ddim) mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw. I bob pwrpas, gall y Comisiwn wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylai ffi bersonol y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gael ei gostwng neu ei dal yn ôl (ac felly'n llai na'r swm uchaf adferadwy a nodir yn y Gorchymyn) pan fydd y Comisiwn yn credu bod perfformiad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi bod yn annigonol.

9. Wrth wneud argymhelliad, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i:

- Unrhyw adroddiad a baratowyd o dan Adran 5 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) ynghylch gweinyddu'r etholiad seneddol dan sylw
- Unrhyw asesiad o lefel perfformiad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â'r etholiad o dan Adran 9 o PPERA
- Unrhyw sylwadau a gyflwynwyd i'r Comisiwn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaeth
- Unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a ddarparwyd i'r Comisiwn

10. Mewn achosion lle mae'r Comisiwn yn penderfynu gwneud argymhelliad, ni fydd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hawl i ddim mwy na'r swm (a

[2] Atodlen 1 RPA 1983.

[3] Adran 29A RPA 1983.

all fod yn ddim) a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (gan ystyried argymhelliad y Comisiwn).

Proses

11. Gallai'r Comisiwn ddod yn ymwybodol o fater yn ymwneud â pherfformiad annigonol posibl gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu, i'r canlynol:

    - monitro fel rhan o fframwaith safonau perfformiad y Comisiwn
    - sylwadau gan gynrychiolwyr y Comisiwn
    - ymholiadau neu gwynion a wnaed i'r Comisiwn
    - adroddiadau yn y cyfryngau

12. Os daw'r Comisiwn yn ymwybodol o fater yn y cyfnod cyn diwedd yr etholiad, y flaenoriaeth fydd cymryd camau i sicrhau y cyflenwir y bleidlais yn llwyddiannus. Mewn achosion fel hyn, bydd ein timau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yn cysylltu â'r awdurdod lleol o dan sylw cyn gynted ag y bo'n ymarferol i drafod y mater hwn a'r llwybrau gweithredu posibl i unioni'r sefyllfa. Bydd y Comisiwn yn ceisio darparu cymorth lle bo angen er mwyn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll yn yr etholiad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal y Comisiwn wedyn rhag ymchwilio i'r mater a gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â ffi bersonol y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Bydd y Comisiwn yn cofnodi unrhyw drafodaethau o'r fath a'r gefnogaeth a ddarparwyd.

13. Gallai'r Comisiwn hefyd ddod yn ymwybodol o fater yn y cyfnod ar ôl yr etholiad.

Asesiad Gateway

14. Mae ymholiadau, cwynion a gwybodaeth am fonitro perfformiad a dderbynnir gan y Comisiwn yn cael eu cofnodi fel mater o drefn gan ein timau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, ac yna'n cael eu hadolygu gan ein tîm Canllawiau. Wrth adolygu'r cofnodion hyn neu ar ôl atgyfeiriad gan ein timau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban bydd unrhyw fater **sy'n ymddangos** fel petai'n fater perfformiad **sylweddol** o ran Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) penodol (gan ystyried at y ffactorau a nodir yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon) yn cael eu cyfeirio ar y Pennaeth Cefnogaeth a GwellaPennaeth Cefnogaeth a Gwella.

Ymchwiliad cychwynnol a phenderfyniad ynghylch p'un a oes angen ymchwiliad ffurfiol

15. Mewn perthynas â'r materion hynny a gyfeirir at y Pennaeth Cefnogaeth a GwellaPennaeth Cefnogaeth a Gwella, bydd ef/hi yn penderfynu, **ar wyneb y mater,** os yw'r gwasanaeth a roddwyd gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi ei berfformio'n annigonol ac os felly a oes angen ymchwiliad ffurfiol. Er mwyn cynorthwyo'r Pennaeth Cefnogaeth a Gwella Pennaeth Cefnogaeth a Gwellawrth wneud y penderfyniad hwn, cynhelir ymchwiliad cychwynnol a gydlynir gan Bennaeth y Comisiwn Etholiadol yng NghCymru/Yr Alban/Y rheolwr Rhanbarthol perthnasol yn Lloegr.

16. Golyga'r ymchwiliad cychwynnol y bydd y Comisiwn yn gwneud y canlynol:

- cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a/neu eu staff i drafod y mater a gofyn am esboniad ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd (os nad yw cyswllt eisoes wedi'i wneud fel rhan o ddarparu cymorth yn unol â pharagraff 13 neu lle bo angen rhagor o wybodaeth). Ni fydd angen i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud unrhyw sylwadau ffurfiol ar yr adeg hon

- nodi unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

17. Wrth ddod i benderfyniad ynghylch p'un a oes angen ymchwiliad ffurfiol, bydd y Pennaeth Cefnogaeth a GwellaPennaeth Cefnogaeth a Gwellayn:

- ystyried y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r ymchwiliad cychwynnol

- rhoi sylw i'r ffactorau a nodir yn Atodiad 1 ac unrhyw faterion perthnasol eraill

18. Yn arbennig lle mae Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi llwyddo i ddatrys mater cyn etholiadau Mai (gyda chefnogaeth y Comisiwn neu fel arall) a lle na fu unrhyw effaith neu effaith ddibwys o ganlyniad ar etholiadau mis Mai, gall y Pennaeth Cefnogaeth a Gwella benderfynu nad oes angen ymchwiliad ffurfiol.

19. Os yw'r Pennaeth Cefnogaeth a Gwella yn penderfynu nad oes angen ymchwiliad ffurfiol:

- dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dan sylw ddal i ystyried unrhyw faterion fel rhan o'u gwerthusiad ôl-etholiad i nodi pa wersi, os o gwbl, y gellir eu dysgu ac adlewyrchu hynny yn eu trefniadau ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, a

- gall y Comisiwn ddal i ddarparu awgrymiadau ar sut y gellir osgoi materion tebyg yn y dyfodol. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ymdrin â'r awgrymiadau hyn fel rhan o'u gwerthusiad ôl-etholiad

20. Bydd amseriad unrhyw ymchwiliad ffurfiol yn dibynnu ar pryd y mae'r mater yn codi yn ystod cyfnod yr etholiad. Fel y nodir ym mharagraff 13, y flaenoriaeth bob amser fydd cymryd camau i sicrhau y cyflenwir y bleidlais yn llwyddiannus a bydd y Comisiwn yn ceisio darparu cymorth i ddatrys unrhyw faterion cyn etholiadau mis Mai, a all olygu na fydd yr ymchwiliad ffurfiol yn cychwyn tan ar ôl yr etholiad.

Ymchwiliad ffurfiol

21. Lle mae'r Pennaeth Cefnogaeth a Gwella yn penderfynu ar wyneb y mater bod perfformiad annigonol ymddangosiadol gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a bod angen ymchwiliad ffurfiol, bydd yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau a fydd yn gyfrifol am gynnal ymchwiliad ffurfiol a pharatoi adroddiad rhagarweiniol (gweler isod).

22. Bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau yn:

- ffonio'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dan sylw i roi gwybod iddynt y cynhelir ymchwiliad ffurfiol, ac i drafod gyda hwy beth fydd hyn yn ei olygu.
- ysgrifennu at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol):
  - yn eu hysbysu y cynhelir ymchwiliad ffurfiol
  - yn crynhoi'r broses ar gyfer yr ymchwiliad ffurfiol
  - yn crynhoi'r materion
  - yn gofyn i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu unrhyw wybodaeth, deunydd neu gopïau o ddogfennaeth y mae'r Comisiwn yn credu all fod yn berthnasol i'r ymchwiliad o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr
  - yn gwahodd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i ddarparu sylwadau ysgrifenedig (a all gynnwys unrhyw esboniad neu ffactorau lliniarol) ac i ddarparu unrhyw wybodaeth, deunydd perthnasol neu gopïau o ddogfennaeth i gefnogi'r sylwadau hynny o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr
  - yn cynnig y cyfle i gyfarfod wyneb yn wyneb â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyda chynrychiolydd o'r Comisiwn i drafod y materion
- ysgrifennu at unrhyw barti neu bartïon eraill a allai fod â gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol):
  - yn gofyn iddynt ddarparu unrhyw wybodaeth, deunydd neu gopïau o ddogfennaeth y mae'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau yn credu all fod yn berthnasol i'r ymchwiliad o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr
  - yn eu gwahodd i roi sylwadau ysgrifenedig ac i ddarparu unrhyw wybodaeth, deunydd perthnasol neu gopïau o ddogfennaeth i

gefnogi'r sylwadau hynny o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr

23. Bydd y Comisiwn yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Cabinet pryd bynnag y bydd ymchwiliad ffurfiol wedi cychwyn, o gofio mai un canlyniad posibl yw ymhellach at hyn y gall y Comisiwn wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylai ffi bersonol y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gael ei gostwng neu ei dal yn ôl (ac felly y bydd yn llai na'r swm uchaf adferadwy a nodir yn y Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau).

Paratoi'r adroddiad rhagarweiniol

24. Unwaith y bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau yn ystyried bod ganddo/ganddi'r holl wybodaeth angenrheidiol i symud ymlaen yn deg ac yn gywir, gan gynnwys gofyn am esboniad pellach lle bo angen, bydd yn paratoi adroddiad rhagarweiniol.

25. Bydd yr adroddiad rhagarweiniol yn cynnwys:

- crynodeb o'r materion
- crynodeb o unrhyw sylwadau a gwybodaeth, deunydd neu gopïau o ddogfennaeth a ddarparwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaeth
- crynodeb o unrhyw sylwadau a gwybodaeth, deunydd neu gopïau o ddogfennaeth a ddarparwyd gan unrhyw bartïon eraill sy'n ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth
- lle bo ar gael, copi o unrhyw asesiad a wnaed o ran lefel perfformiad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â'r etholiad o dan Adran 9 o PPERA
- lle bo ar gael, copi o'r rhannau perthnasol o unrhyw adroddiad a baratowyd o dan adran 5 o PPERA 2000 ar weinyddu'r etholiad seneddol dan sylw
- penderfyniad rhagarweiniol ynghylch p'un a yw'r gwasanaeth a roddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi ei berfformio'n annigonol a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw (gan gyfeirio at y ffactorau a nodir yn Atodiad 1 o'r canllawiau hyn ac unrhyw beth arall sy'n cael ei ystyried yn berthnasol)
- os mai'r casgliad yw bod y gwasanaeth wedi ei berfformio'n annigonol, penderfyniad rhagarweiniol ynghylch a ddylid gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r ffi a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw (gan gyfeirio at y ffactorau a nodir yn Atodiad 2 y canllawiau hyn ac unrhyw beth arall sy'n cael ei ystyried yn berthnasol)
- os mai'r casgliad yw y dylid gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, penderfyniad rhagarweiniol o ran y ffi yr ystyrir sy'n briodol i'w hargymell a'r rhesymau dros yr asesiad hwnnw (gan gyfeirio at y ffactorau a nodir yn Atodiad 3 o'r canllawiau hyn ac unrhyw beth arall sy'n cael ei ystyried yn berthnasol)

26. Mae'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau yn anelu at gwblhau'r ymchwiliad ffurfiol a pharatoi'r adroddiad rhagarweiniol o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl hysbysu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) bod ymchwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal.

27. Unwaith y bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau wedi paratoi'r adroddiad rhagarweiniol, bydd yn ei ddarparu i'r:

- Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a rhoi cyfle i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud unrhyw sylwadau pellach (gan gynnwys unrhyw sylwadau fod y Comisiwn wedi methu â chymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau perthnasol) o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad rhagarweiniol
- unrhyw barti arall y cred y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau sy'n briodol a rhoi cyfle i'r parti hwnnw wneud unrhyw sylwadau pellach o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad rhagarweiniol

28. Bydd y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol a Chanllawiau yn darparu copi o'r adroddiad rhagarweiniol ac unrhyw sylwadau pellach a dderbyniwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu bartïon eraill i Brif Weithredwr y Comisiwn er mwyn iddo/iddi allu paratoi adroddiad terfynol.

Argymhelliad terfynol/ymateb

29. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys:

- Copi o'r adroddiad rhagarweiniol
- Penderfyniad y Prif Weithredwr ynghylch a yw'r gwasanaethau a roddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi'u perfformio'n annigonol a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw
- Penderfyniad y Prif Weithredwr ar a ddylid gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol nad oes gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hawl i ddim mwy na swm penodol o'u ffi bersonol (a all fod yn ddim) mewn perthynas â'r gwasanaeth, a'r rhesymau dros yr argymhelliad hwnnw
- Os yw'r Prif Weithredwr wedi penderfynu gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, ei argymhelliad ynghylch y ffi y mae'n ei hystyried yn briodol o dan yr holl amgylchiadau, a'r rhesymau dros yr argymhelliad

30. Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi copi o'r adroddiad terfynol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)..

31. Mae'r Prif Weithredwr yn anelu at wneud argymhelliad terfynol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr adroddiad rhagarweiniol a sylwadau pellach.

Argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol gan y Comisiwn

32. Os yw Prif Weithredwr y Comisiwn yn penderfynu bod y gwasanaethau a roddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi'u perfformio'n

annigonol a'i bod yn briodol gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch 'ffi bersonol' y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ar ran y Comisiwn gyda'i argymhelliad ynghylch ffi briodol a'r rhesymau drosti. Mewn achosion o'r fath, ni fydd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hawl i ddim mwy na'r swm (a all fod yn ddim) a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (gan ystyried argymhelliad y Comisiwn).

Adrodd ar yr etholiad

33. Fel rhan o'n gwaith adrodd ar yr etholiad, byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn erbyn ein safonau perfformiad. Gall y gwaith adrodd hwn hefyd gyfeirio at unrhyw achosion lle mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod perfformiad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi bod yn annigonol a'i fod wedi gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylid gostwng neu ddal yn ôl ffi bersonol y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Dal y broses yn ôl am y tro

34. Ar unrhyw adeg gall y Comisiwn ddal ymchwiliad neu gynhyrchu adroddiad rhagarweiniol neu derfynol yn ôl am y tro, tra'n aros am ganlyniad unrhyw ymchwiliad troseddol neu achos cyfreithiol arall (megis deiseb etholiadol), er mwyn sicrhau na ragfernir yn erbyn unrhyw ymchwiliad troseddol/achos cyfreithiol.

Etholiadau cyfunol

35. Gellir cael amgylchiadau lle mae etholiad Senedd y DU yn cael ei gyfuno gydag etholiadau eraill a bod y perfformiad annigonol yn ymwneud ag un o'r etholiadau eraill ond hefyd yn cael effaith ar etholiad Senedd y DU. Er enghraifft, lle penderfynwyd cyfuno anfon pleidleisiau post i etholiad Senedd y DU ac etholiadau lleol, ac y daw i'r amlwg ar ôl y pecynnau pleidleisio drwy'r post gael eu hargraffu a'u dosbarthu bod ymgeiswyr ar goll o'r papur pleidleisio lleol oherwydd prawf ddarllen annigonol a bod angen ailargraffu ac ail anfon y pecynnau, gan arwain at iddynt gael eu derbyn gan etholwyr dim ond ychydig o ddyddiau cyn yr etholiad - yn y math hwn o sefyllfa, er bod y camgymeriad ar y papurau pleidleisio lleol, gellir tybio fod y gwasanaethau a roddwyd mewn perthynas ag etholiad Senedd y DU yng nghyswllt pleidleisio drwy'r post wedi cael eu perfformio yn annigonol, gan fod y ddwy broses wedi eu cysylltu'n annatod.

Gostyngiad gwirfoddol mewn hawliad

36. Gall Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ddewis hawlio llai na'r uchafswm mewn amgylchiadau lle maent yn ystyried eu bod wedi perfformio'n annigonol. Ar yr amod fod y Comisiwn yn ystyried y swm y gostyngiad gwirfoddol yn briodol yn yr holl amgylchiadau, a bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi darparu datganiad ysgrifenedig y cymerwyd gostyngiad gwirfoddol yn y

ffioedd, gallwn benderfynu nad oes angen argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ym mhob achos, byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i'w cefnogi gyda'u gwerthuso, gan roi adborth a chefnogaeth fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau y gellir adnabod y gwersi a ddysgwyd a'u cynnwys mewn cynllunio ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

Atodiad 1

Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a yw gwasanaeth a roddwyd gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi ei berfformio'n annigonol

Bydd angen ystyried bob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan ystyried yr amgylchiadau oedd yn bodoli ar y pryd. Fodd bynnag, wrth benderfynu a yw'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi ei berfformio'n annigonol, mae'r Comisiwn yn disgwyl rhoi sylw i rai neu bob un o'r canlynol:

- A yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol):
  - wedi perfformio'n annigonol wrth wneud trefniadau ar gyfer yr etholiad?
  - wedi perfformio'n annigonol wrth gynnal y bleidlais?
  - wedi methu â chyflawni dyletswyddau Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn yr etholiad?
- A yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi methu â gwneud gweithredoedd a phethau a allai fod yn angenrheidiol er mwyn cynnal yr etholiad yn y modd a ddarperir gan y rheolau etholiad seneddol?
- A oedd difrifoldeb, graddau ac effaith unrhyw weithred neu hepgoriad mor fawr ag i awgrymu mae'n rhaid bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi perfformio'n annigonol? Felly, er enghraifft:
  - Faint o bobl sydd wedi cael eu heffeithio'n andwyol gan y weithred neu hepgoriad?
  - A yw'r weithred neu'r hepgoriad wedi arwain at anghyfleustra i randdeiliaid neu a yw'r canlyniadau'n fwy difrifol e.e. difreinio pleidleiswyr?
  - A yw'r weithred neu'r hepgoriad yn effeithio ar gywirdeb yr etholiad cyfan?
  - A yw'r weithred neu'r hepgoriad yn debygol o arwain at danseilio hyder y cyhoedd yn y broses etholiadol?
- A oedd y gwasanaeth a roddwyd o safon is na gwasanaeth Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) rhesymol gymwys (mae'r Comisiwn yn cynhyrchu canllawiau, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cynghori a Chydlynu Etholiadol, sy'n adlewyrchu'r hyn y dylai Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ei wneud i gyflwyno etholiad a gynhelir yn dda)?
- A wnaeth y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fethu â gwneud yr hyn y byddai Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) rhesymol wedi ei wneud yn yr un sefyllfa, neu wneud rhywbeth na fyddai Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) rhesymol wedi ei wneud yn yr un sefyllfa?
- A oedd canlyniadau unrhyw weithred neu hepgoriad yn rhagweladwy gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) rhesymol gymwys?

- A wnaeth y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gymryd camau i adfer y sefyllfa fel bod yr effaith ar yr etholiad yn ddibwys?

- A wnaeth y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fodloni'r amcanion yn safonau perfformiad y Comisiwn?

    - A yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi methu â gwneud un neu fwy o'r camau gweithredu a nodir yn y safonau perfformiad a fyddai wedi cyflawni'r canlyniadau a nodir yn y safonau hynny?
    - Os yw'r Comisiwn wedi ymyrryd o ganlyniad i fonitro'r safon perfformiad, beth oedd yr ymateb i gyngor/canllawiau'r Comisiwn (e.e. a dderbyniwyd y cyngor/canllawiau hynny)?

Atodiad 2

Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a ddylid gostwng neu ddal yn ôl ffi'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

Bydd angen ystyried bob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan ystyried yr amgylchiadau oedd yn bodoli ar y pryd. Fodd bynnag, wrth benderfynu a ddylid gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran ffi'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), mae'r Comisiwn yn disgwyl rhoi sylw i rai neu bob un o'r canlynol:

- A yw'r Comisiwn wedi canfod fod y gwasanaethau a roddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi'u perfformio'n annigonol?
- A oedd difrifoldeb, graddau ac effaith y perfformiad annigonol o'r fath i awgrymu y dylid gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol?
- A oedd y perfformiad annigonol oherwydd natur fwriadol neu fyrbwylltra ar ran y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu a oedd unrhyw ffactorau gwaethygol eraill?
- Pa ffactorau lliniarol oedd yn bodoli (er enghraifft, a oedd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cydymffurfio ag arferion cyffredin wrth roi eu gwasanaeth (oni bai bod yr arfer cyffredin yn esgeulus))?

Atodiad 3

Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu beth ddylai'r ffi briodol fod

Bydd angen ystyried bob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun gan ystyried yr amgylchiadau oedd yn bodoli ar y pryd. Fodd bynnag, wrth benderfynu faint i argymell o ostyngiad yn y ffi neu a ddylid ei dal yn ôl yn gyfan gwbl, mae'r Comisiwn yn disgwyl rhoi sylw i rai neu bob un o'r canlynol:

- Beth oedd difrifoldeb, graddau ac effaith y perfformiad annigonol?
- A oedd unrhyw ffactorau gwaethygol, megis natur fwriadol neu fyrbwylltra ar ran Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)?
- Pa ffactorau lliniarol sy'n bodoli?

Atodiad 4

Y broses a'r amserlen ar gyfer penderfynu a ddylid gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylid gostwng neu ddal yn ôl ffi Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol)